
Materion o ran ymchwil gyda phlant a phobl ifanc EK313

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl hwn yn edrych ar y broses ymchwil drwy astudiaethau gyda phlant ifanc, plant a phobl ifanc a gynhelir ym meysydd addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n archwilio pynciau sy'n ganolog i'r broses ymchwil megis moeseg, amrywiaeth, pŵer a chyfrifoldebau ymchwilwyr. Cwrs sy'n seiliedig ar brosiectau yw hwn ac ni fydd unrhyw arholiad. Bydd yn helpu'r myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau ymchwil a dadansoddi eu hunain drwy ddefnyddio deunyddiau sain, fideo ac ar-lein.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech wneud y canlynol:

- gradd mewn addysg, iechyd, lles cymdeithasol, astudiaethau plentyndod neu'r gwyddorau cymdeithasol
- dealltwriaeth o'r materion sy'n codi wrth wneud ymchwil gyda phlant a phobl ifanc
- gwybodaeth a dealltwriaeth o faes cynllunio ymchwil a dulliau ansoddol a meintiol
- cymhwyster ôl-raddedig (ar lefel meistr neu ar lefel ddoethurol)
- dealltwriaeth o'r anawsterau a wynebir gan fyfyrwyr sy'n astudio ar lefel 3.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o wneud ymchwil gyda phlant neu bobl ifanc ym meysydd addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, astudiaethau plentyndod neu'r gwyddorau cymdeithasol
- dealltwriaeth o gynlluniau marcio electronig ar gyfer aseiniadau myfyrwyr
- profiad o oruchwylio myfyrwyr sy'n cynnal prosiectau ymchwil ar lefel israddedig neu ôl-raddedig.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	7
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	6

Gallai fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano – byddwn yn cysylltu â chi ar wahân os yw hyn yn berthnasol.